Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cwestiynau Cyffredin

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Beth yw Medr?

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru yw Medr. Hwn yw corff hyd braich Llywodraeth Cymru sy’n gyfrifol am gyllido a rheoleiddio’r sector addysg drydyddol ac ymchwil. Fe lansiodd Medr ar 1 Awst 2024, yn dilyn **Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf), ac mae’n dwyn ynghyd oruchwyliaeth ar:

- Addysg bellach
- Addysg uwch
- Prentisiaethau
- Dysgu oedolion yn y gymuned
- Chweched dosbarth mewn ysgolion
- Ymchwil ac arloesi a gyllidir gan y Llywodraeth

Am y tro cyntaf, caiff y meysydd hyn eu rheoli a’u cydlynu gan un corff cenedlaethol, gan ei gwneud yn bosibl bod â system fwy cydlynus, strategol sydd â mwy o ffocws ar ddysgwyr ledled Cymru.

## Pa bwerau sydd gan Medr dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022?

Mae’r Ddeddf yn rhoi’r gallu i Medr reoleiddio’r system addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru trwy bwerau cyllid a chofrestru. Pan rydym yn darparu cyllid, gallwn bennu amodau cyllid - rheolau y mae’n rhaid i ddarparwyr eu dilyn i sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol ac er budd dysgwyr.

Bydd darparwyr addysg uwch a gofrestrwyd gan Medr yn cael budd o fynediad at gymorth i fyfyrwyr. Rydym yn gallu pennu amodau rheoleiddio sy’n gysylltiedig â’r cofrestriad hwnnw, y mae’n rhaid iddynt eu bodloni i’w galluogi i barhau i gael budd o’r system cymorth i fyfyrwyr. Os yw darparwr sydd wedi cofrestru neu a gyllidir yn methu bodloni ei amodau, gallwn gymryd camau rheoleiddiol cymesur. Fodd bynnag, mae rhai cyfrifoldebau’n eistedd gyda chyrff eraill - er enghraifft y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, neu Gomisiynydd y Gymraeg - ac yn yr achosion hynny nid Medr yw’r prif reoleiddiwr.

## Sut fydd dysgwyr yn cael budd o'r system newydd?

Mae'r system newydd wedi'i bwriadu i wneud mynediad at addysg drydyddol yn fwy eglur, yn fwy teg ac yn fwy cyson i ddysgwyr ledled Cymru - pa un a ydynt mewn addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau, dysgu oedolion, neu'r chweched dosbarth mewn ysgol.

Bydd dysgwyr yn cael budd o'r canlynol:

- cymorth a mesurau diogelu cryfach - bydd ar ddarparwyr angen cynlluniau eglur i sicrhau bod dysgwyr yn gallu parhau â'u hastudiaethau'n esmwyth os bydd rhywbeth yn newid, megis cwrs yn cau neu addasiadau mawr yn cael eu gwneud
- mwy o gyfleoedd i gael eu clywed - bydd disgwyl i bob rhan o'r sector gynnwys dysgwyr wrth siapio eu profiad trwy'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr
- ffocws ar lesiant a chymorth - bydd gan ddarparwyr gyfrifoldebau am wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael eu trin â gofal a pharch, a bod eu hanghenion yn cael eu cydnabod
- gwell gwybodaeth a thryloywder - bydd dysgwyr yn gallu gweld pa ddarparwyr sy'n cael eu cydnabod a'u rheoleiddio, a beth ddylent ei ddisgwyl ganddynt
- cydweithio gwell rhwng darparwyr - bydd Medr yn annog gwahanol rannau o'r sector i gydweithio. Mae hyn yn golygu y dylai dysgwyr ei chael hi'n haws symud rhwng cyrsiau a sefydliadau, a chael y cymorth cywir wrth iddynt gamu ymlaen trwy wahanol gyfnodau yn eu haddysg

Ar y cyfan, mae'r system yn amcanu at roi mwy o hyder i ddysgwyr yn eu haddysg – ac at wneud yn siŵr bod eu lleisiau a'u profiadau'n helpu i siapio sut y mae darparwyr yn cael eu rhedeg.

## Beth yw'r gofrestr ac i bwy y mae wedi'i bwriadu?

Rhestr o ddarparwyr addysg y mae Medr yn eu cydnabod yn swyddogol ac yn eu goruchwylio yw'r gofrestr. Mae'n helpu i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael profiad teg o ansawdd da, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd gywir.

Mae'r gofrestr ar gyfer **darparwyr addysg uwch yn unig** - fel prifysgolion neu ddarparwyr addysg bellach sy'n rhedeg cyrsiau addysg uwch yng Nghymru. Ceir dau gategori cofrestru, Craidd ac Amgen. Rhaid i ddarparwr gofrestru gyda Medr yn y categori Craidd os oes arno eisiau cael rhai mathau penodol o gyllid cyhoeddus, neu os oes arno eisiau i'w gyrsiau gael eu cwmpasu gan gymorth i fyfyrwyr (fel benthyciadau neu grantiau) ar y lefel uchaf posibl. Mae cymorth i fyfyrwyr ar gael ar lefel is i'r darparwyr hynny yn y categori Amgen. I fod ar y gofrestr yn y naill gategori neu'r llall, rhaid i ddarparwyr fodloni amodau a nodir gan Medr. Diben y rhain yw diogelu dysgwyr a gwneud yn siŵr bod darparwyr yn cael eu rhedeg yn dda ac yn darparu addysg o ansawdd da.

## Beth mae hyn yn ei olygu os oes gennyf Gynllun Ffioedd a Mynediad ar hyn o bryd?

Os oes gennych Gynllun Ffioedd a Mynediad ar hyn o bryd, bydd yn aros ar waith tan 31 Gorffennaf 2027. Fodd bynnag, os yw darparwyr yn dymuno i'w cyrsiau fod yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, bydd angen iddynt gofrestru. O hynny ymlaen, ni fydd Cynlluniau

Ffioedd a Mynediad yn rhan o'r system reoleiddio mwyach. Byddant yn cael eu disodli gan set ehangach o ofynion cofrestru a chyllid sy'n berthnasol ar draws y sector addysg drydyddol. Ar gyfer darparwyr Addysg Uwch â Chynllun Ffioedd a Mynediad, o 1 Awst 2026 bydd y mwyafrif o'r amodau'n dod i rym. Fodd bynnag, ni fydd amodau sy'n ymwneud â'r Terfynau Ffioedd, a Chyfle Cyfartal, yn dod i rym tan 31 Gorffennaf 2027, gyda'r meysydd hynny'n cael eu cwmpasu gan Gynlluniau Ffioedd a Mynediad tan yr adeg honno.

## Beth mae cofrestru yn ei olygu i ddarparwyr sydd â Dynodiad Cyrsiau Penodol ar gyfer Darpariaeth addysg uwch?

Bydd darparwyr gyda Dynodiad Cyrsiau Penodol ar gyfer darpariaeth addysg uwch yn cael eu monitro am y cyrsiau hynny ar gyfer mynediad yn 2026/27, gyda'r broses honno yn debygol o ddechrau yn hwyr yn 2025. Gall y darparwyr hynny wneud cais i gofrestru ar gyfer 2026/27, naill ai yn y categori Craidd Addysg Uwch neu'r categori Amgen Addysg Uwch pan fydd ceisiadau i'r Gofrestr yn agor ym mis Ebrill 2026.

Mae'r flwyddyn academaidd 2026/27 yn flwyddyn drosiannol lle nad yw'r Amod Cofrestru Terfyn Ffioedd yn berthnasol, felly bydd Terfynau Ffioedd yn cael eu penderfynu gan statws Dynodi Cyrsiau Penodol darparwyr, waeth beth fo'u categori Cofrestru. Mae hyn yn golygu, i ddarparwyr sydd â Dynodiad Cyrsiau Penodol, bydd lefel is o gymorth ffioedd yn berthnasol yn 2026/27. Rydym wrthi'n trafod â Llywodraeth Cymru i egluro'r goblygiadau i fyfyrwyr parhaus o 2027/28 lle mae'r darparwyr hyn yng Nghategori Craidd Addysg Uwch y Gofrestr. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddarparwyr maes o law.

## Pam y dylai darparwyr wneud cais i ddod yn gofrestredig?

Trwy gofrestru ar gyfer y categori craidd Addysg Uwch, mae darparwyr addysg uwch yn sicrhau bod gan eu myfyrwyr cymwys hawl i'r benthyciad mwyaf posibl sydd ar gael mewn perthynas â ffioedd dysgu. Maent hefyd yn dod yn gymwys ar gyfer cronfeydd grantiau addysg uwch ac ymchwil a reolir gan Medr, yn amodol ar bolisi cyllid Medr. Bydd sefydliadau sy'n cofrestru yn y categori amgen Addysg Uwch yn denu cymorth ffioedd dysgu hyd at y terfyn is ar gyfer myfyrwyr cymwys. Nid ydynt yn gymwys ar gyfer cyllid addysg uwch nac ymchwil gan Medr.

## Sut a phryd all darparwyr wneud cais i ddod yn gofrestredig?

Mae Medr yn y broses o ddatblygu porth ceisiadau ar-lein a fydd yn galluogi darparwyr i gyflwyno'r wybodaeth y mae ei hangen er mwyn gwneud cais i ddod yn gofrestredig. Bydd Medr yn defnyddio gwybodaeth a ddelir yn barod lle y bo'n bosibl i leihau baich y broses ymgeisio e.e. Gwybodaeth am gyllid darparwyr. Bydd y broses ymgeisio'n agor i ddarparwyr yn y flwyddyn nesaf a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei ddarparu yn y flwyddyn sydd i ddod.

## Beth yw amod rheoleiddio?

Ystyr amod rheoleiddio yw rheol y mae'n rhaid i ddarparwr ei dilyn os oes arno eisiau bod wedi'i gofrestru gyda Medr neu gael cyllid cyhoeddus gennym. Mae'r amodau hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael eu cefnogi, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol, a bod darparwyr yn gwneud yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

Mae rhai amodau'n berthnasol i ddarparwyr ar y gofrestr - gelwir y rhain yn **amodau cofrestru**. Mae eraill yn berthnasol pan rydym yn rhoi cyllid - gelwir y rhain yn **amodau cyllid**. Defnyddir rhai amodau yn y ddwy ffordd, gan ddibynnu ym mha ran o'r sector addysg drydyddol y mae darparwr.

## Beth yw'r gwahaniaeth rhwng amodau cofrestru ac amodau cyllid?

Ystyr amodau **cofrestru** yw rheolau y mae'n rhaid i ddarparwr eu bodloni i gael ei gynnwys ar gofrestr Medr. Mae'r rhain yn berthnasol i ddarparwyr addysg uwch. Maent yn helpu i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael eu diogelu, bod cyrsiau o ansawdd da, a bod y darparwr yn cael ei redeg yn dda. Os nad yw darparwr yn bodloni'r amodau hyn, gallai gael ei dynnu oddi ar y gofrestr a allai effeithio ar allu ei fyfyrwyr i gael cymorth ariannol.

Ystyr amodau **cyllid** yw rheolau sy'n berthnasol pan fo Medr yn rhoi arian cyhoeddus i ddarparwr - er enghraifft, i ddarparu cyrsiau, cefnogi dysgwyr, neu gyflawni ymchwil. Mae'r rhain yn berthnasol yn fwy eang ar draws y sector trydyddol, nid dim ond i ddarparwyr ar y gofrestr.

Defnyddir rhai amodau fel amodau cofrestru ac fel amodau cyllid. Pa un a oes rhaid i ddarparwr fodloni amod fel rhan o gofrestriad, cyllid, ynteu'r ddau, mae hynny'n dibynnu ym mha ran o'r sector addysg drydyddol y mae - er enghraifft, addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau, neu ddysgu oedolion yn y gymuned. Mae rhai rhannau o'r system - fel **chweched dosbarth mewn ysgolion** - yn cael eu cyllido trwy awdurdodau lleol, nid yn uniongyrchol gan Medr. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn ddarostyngedig i amodau cyllid Medr, er bod Medr yn dal i oruchwylio'r cyllid a drosglwyddir iddynt.

## Beth sy'n berthnasol i chweched dosbarth mewn ysgolion?

Yn bwysig, dim ond mewn perthynas ag ansawdd y mae chweched dosbarth mewn ysgolion yn ddarostyngedig i amod cyllid Medr. Bydd yr amod hwn yn cael ei gymhwyso trwy awdurdodau lleol.  Mae Fframwaith Ansawdd Medr hefyd yn goleuo asesiad Estyn o ansawdd fel y mae'n berthnasol i ysgolion sydd â chweched dosbarth. Bydd gan ysgolion sydd â chweched dosbarth **ddyletswydd statudol** hefyd i gydymffurfio â'r **Cod Ymgysylltu â Dysgwyr - y mae'r gofynion monitro wedi'u gosod yn yr amod cysylltiedig.** Mae hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgolion yn cael budd o'r un disgwyliadau o ran ansawdd a llais â dysgwyr mewn rhannau eraill o'r system drydyddol. Mae dyletswydd statudol ar chweched dosbarth mewn ysgolion, a'r awdurdodau lleol sy'n cael grant ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion, i ystyried cyngor ac arweiniad a roddir gan Medr neu gyrff eraill sy'n gweithredu ar ran Medr (e.e. Estyn).

## A oes gan awdurdodau lleol rôl yn y system newydd hon?

Oes - bydd awdurdodau lleol yn cael cyllid gan Medr ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth a dysgu oedolion yn y gymuned, a byddant yn dal i fod â rôl hollbwysig o ran dosbarthu'r cyllid hwn a chynnal y ddarpariaeth hon.

Bydd awdurdodau lleol yn uniongyrchol ddarostyngedig i amodau cyllid mewn perthynas â'r cyllid y maent yn ei gael ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned, ac maent yn rhan allweddol o sut y mae'r system yn gweithio. Mewn rhai achosion, maent yn

gweithredu fel y ddolen gyswllt rhwng Medr a'r dysgu a ddarperir - yn enwedig lle maent yn cyllido neu'n cydlynu darpariaeth ar ran eraill.

Lle mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddysgu, bydd angen iddynt wneud yn siŵr bod yr hyn a ddarperir yn ateb unrhyw ofynion perthnasol - megis dyletswyddau statudol mewn perthynas ag ansawdd neu ymgysylltu â dysgwyr. Bydd Medr hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol fel rhan o gydweithio a chynllunio ehangach ar draws y sector. Mae hyn yn cynnwys helpu i wneud yn siŵr bod cyfleoedd dysgu'n cael eu cydgysylltu a'u bod yn diwallu anghenion dysgwyr a chymunedau lleol.

## Pryd y bydd y system reoleiddio newydd yn cael ei rhoi ar waith?

Fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth sy'n ategu'r Ddeddf, ac yn unol â throsglwyddo pwerau o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Medr gydymffurfio â'r fframiau amser canlynol:

- o fis **Awst 2026**, bydd y gofrestr o ddarparwyr addysg uwch yn cael ei lansio, a bydd y rhan fwyaf o ofynion cofrestru a'r holl ofynion cyllid yn dechrau bod yn berthnasol
- o fis **Awst 2027**, bydd gweddill y gofynion cofrestru'n dod i rym

Erbyn blwyddyn academaidd 2027/28, bydd y set lawn o ofynion ar waith. Bydd hi'n ofynnol i ddarparwyr fodloni'r amodau sy'n berthnasol iddynt hwy, gan ddibynnu ym mha ran o'r sector addysg drydyddol y maent.

## Beth mae cofrestru'n ei olygu'n ymarferol i ddarparwyr?

Cofrestru yw sut y mae Medr yn cydnabod darparwyr **addysg uwch** yn ffurfiol ac yn eu goruchwylio yng Nghymru, gyda hynny i bob pwrpas yn disodli Cynlluniau Ffioedd a Mynediad a Dynodi Cyrsiau'n Benodol â chategorïau Craidd ac Amgen. Ar y cam hwn, dim ond darparwyr sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch fydd angen cofrestru. Mae bod yn gofrestredig yn golygu bod darparwr wedi bodloni'r amodau a bennwyd gan Medr. Mae'r amodau hyn wedi'u bwriadu i wneud yn siŵr bod y darparwr yn cael ei lywodraethu'n dda, ei fod yn gynaliadwy yn ariannol, a bod ganddo ffocws ar ddarparu profiad o ansawdd da i ddysgwyr.

Yn ymarferol, mae cofrestru'n dwyn rhai cyfrifoldebau penodol yn ei sgîl. Rhaid i ddarparwyr (a) bodloni amodau cofrestru cychwynnol, a (b) parhau i fodloni'r amodau cofrestru'n barhaus. Gall bod ar y gofrestr ganiatáu i ddarparwr gael mynediad at rai mathau penodol o gyllid cyhoeddus hefyd, ac mae'n golygu y gall dysgwyr sy'n astudio yno fod yn gymwys i gael cymorth ariannol fel benthyciadau i fyfyrwyr neu grantiau.

Bydd Medr yn cyhoeddi'r gofrestr fel bod dysgwyr, rhieni, a'r cyhoedd yn gallu gweld pa ddarparwyr addysg uwch sy'n cael eu cydnabod a'u rheoleiddio.

Ein bwriad yw bod yn rheoleiddiwr cymesur, seiliedig ar risg a lleihau'r baich rheoleiddiol i'r eithaf. Er enghraifft, bydd y system gofrestru arfaethedig yn lleihau'r baich ym maes llywodraethu a rheoli, o'i gymharu â'r trefniadau cyfredol ar gyfer sefydliadau rheoleiddiedig, gan na fydd yn ofynnol mwyach i ddarparwyr addysg uwch cofrestredig ddarparu'r wybodaeth ganlynol yn eu ffurflenni sicrwydd blynyddol: cyfansoddiad y corff

llywodraethu, ffurflen flynyddol ar ddigwyddiadau difrifol, diweddariadau ar gynnydd yn erbyn Adolygiad Llywodraethu Cymru, adroddiadau archwilio mewnol unigol, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol ac adroddiad blynyddol y pwyllgor archwilio (neu bwyllgor cyfatebol).

Rydym yn gobeithio, ymhen hir a hwyr, y bydd cyfleoedd eraill i leihau'r baich, yn unol â'n gweledigaeth ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru. Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) ac Estyn i adnabod cyfleoedd i gydweithio mewn perthynas ag arolygu/adolygu a hunanwerthuso.

## Sut y bydd Medr yn cefnogi darparwyr trwy'r newidiadau?

Gwyddom fod cyflwyno gofynion newydd yn cymryd amser, gwaith cynllunio, a chymorth. Dyna pam fod Medr yn ymrwymedig i gydweithio'n agos â darparwyr wrth i'r trefniadau cofrestru a chyllido newydd gael eu rhoi ar waith. Lle mae gan Medr wybodaeth yn barod, bydd yn cael ei defnyddio lle y bo'n bosibl i leihau'r baich a lleihau dyblygu. Er enghraifft, pan fo darparwyr addysg uwch yn gwneud cais i gofrestru, gall Medr ddefnyddio gwybodaeth sydd ganddo'n barod i ddangos lle mae darparwyr wedi bodloni rhai amodau cofrestru cychwynnol penodol, gan wneud y broses yn llai beichus i ddarparwyr.

Byddwn yn darparu arweiniad eglur, diweddariadau rheolaidd, ac offer ymarferol i helpu darparwyr i ddeall yr hyn a ddisgwylir a sut i ateb y gofynion. Rydym hefyd yn bwriadu rhedeg digwyddiadau, gweithdai, a sesiynau briffio ar gyfer y sector wrth i'r newidiadau gael eu cyflwyno. Byddwn hefyd yn gwrando ar adborth ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector trwy gydol y broses.

## Beth yw'r Fframwaith Ansawdd ac i bwy y mae'n berthnasol?

Mae'r Fframwaith Ansawdd yn nodi sut y mae Medr yn disgwyl i ddarparwyr wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael profiad o ansawdd da - a sut y byddwn yn goruchwylio hynny ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru. Mae'n egluro'r hyn ddylai fod gan ddarparwyr ar waith i fonitro a gwella'r hyn y maent yn ei ddarparu, a sut y bydd Medr yn cefnogi ac yn adolygu ansawdd ar draws gwahanol rannau o'r sector.

Mae'r fframwaith yn dwyn ynghyd trefniadau presennol, gan gynnwys arolygu ac adolygu, ac yn amcanu at sicrhau deilliannau da i ddysgwyr a phrofiad cyson ar draws y sector addysg drydyddol. Bydd yn gymwys fel amod cofrestru ar gyfer darparwyr addysg uwch cofrestredig, ac fel amod cyllid ar gyfer darparwyr sy'n cael arian cyhoeddus gan Medr. Bydd hefyd yn gymwys i awdurdodau lleol mewn perthynas â darpariaeth chweched ddosbarth. Er y gall y ffordd y defnyddir y fframwaith amrywio gan ddibynnu ar y math o ddarparwr, mae'r nod yr un fath: cefnogi safonau sy'n gyson uchel ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru.

## A yw'r Fframwaith Ansawdd yn golygu haen ychwanegol o arolygu neu adolygu?

Nac ydy. Nid yw'r Fframwaith Ansawdd yn ymwneud ag ychwanegu haen newydd o asesiad ansawdd allanol (h.y. arolygu neu adolygu) - mae'n ymwneud â dwyn ynghyd yr hyn sydd eisoes ar waith a gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n dda ar draws y sector addysg drydyddol gyfan. Bydd Medr yn gweithio gyda chyrff ansawdd a threfniadau arolygu presennol, yn hytrach na'u dyblygu. Mae'r fframwaith wedi'i fwriadu i gefnogi darlun cydgysylltiedig o ansawdd, gan leihau'r baich ar ddarparwyr.

Mae'n nodi'r hyn y mae Medr yn ei ddisgwyl gan ddarparwyr, a sut y byddwn yn defnyddio pethau fel data, adolygiadau presennol, a gwybodaeth o weithgarwch ymgysylltu â dysgwyr a staff i ddeall yr hyn sy'n gweithio'n dda a nodi risgiau posibl. Y nod yw hybu ansawdd a gwelliant parhaus mewn ffordd sy'n gymesur, â ffocws penodol, ac sy'n cyd-fynd â'r hyn sy'n bodoli eisoes - nid creu prosesau arolygu ychwanegol.

## Sut y bydd Medr yn gweithio gydag Estyn, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) a chyrff ansawdd eraill?

Bydd Medr yn cydweithio'n agos â chyrff ansawdd presennol - fel Estyn, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) ac eraill - yn hytrach na disodli neu ddyblygu eu gwaith. Mae'r sefydliadau hyn eisoes yn cynnal adolygiadau, arolygiadau, ac asesiadau o ansawdd mewn gwahanol rannau o'r sector trydyddol. Mae'r Fframwaith Ansawdd wedi'i fwriadu i ddefnyddio'r trefniadau presennol hynny a'u dwyn ynghyd mewn darlun mwy cydgysylltiedig o ansawdd ar draws y sector cyfan.

Gall Medr gomisiynu neu ddibynnu ar adolygiadau gan y cyrff hyn, a byddwn yn defnyddio eu canfyddiadau fel rhan o'n goruchwyliaeth ni ein hunain. Byddwn hefyd yn gweithio gyda hwy i wneud yn siŵr bod prosesau ansawdd yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn gymesur, ac i osgoi gosod galwadau diangen ar ddarparwyr. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn ymwneud â chydlynu, nid dyblygu - ac mae'n helpu i sicrhau bod dysgwyr yn cael budd o safonau uchel, cyson ble bynnag y maent yn astudio.

## Beth yw'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ac i bwy y mae'n berthnasol?

Bydd y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn nodi sut y dylai dysgwyr ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru gael eu cynorthwyo i fod â llais ystyrlon yn eu haddysg.

Bydd yn egluro'r hyn y dylai darparwyr ei wneud i gynnwys dysgwyr o ran siapio penderfyniadau, rhoi adborth, a dylanwadu ar sut y mae pethau'n cael eu rhedeg. Bydd hefyd yn helpu dysgwyr i ddeall pa fath o ymgysylltu y gallent ei ddisgwyl, a sut y dylid gwrando a gweithredu ar eu lleisiau.

Bydd y Cod yn berthnasol ar draws y sector trydyddol cyfan. Bydd yn un o'r amodau cofrestru ar gyfer darparwyr cofrestredig, yn un o'r amodau cyllid ar gyfer darparwyr a gyllidir, ac yn **ddyletswydd statudol ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion**.

## Beth fydd gweithgarwch monitro Medr yn ei ddisodli ar gyfer darparwyr addysg uwch?

Bydd gweithgarwch monitro Medr yn disodli'r prosesau a arferai gael eu cyflawni gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW), megis monitro Cynlluniau Ffioedd a Mynediad, ffurflenni sicrwydd blynyddol, ac adroddiadau ar lywodraethu, ansawdd, a defnyddio arian cyhoeddus. O dan y fframwaith newydd, bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu dwyn ynghyd mewn un dull o fonitro, a fydd yn cwmpasu gofynion cofrestru a gofynion cyllid.

Caiff ein dull ei ddisgrifio yn y datganiad monitro, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Bydd yn gymesur, yn seiliedig ar risg, ac wedi'i fwriadu i roi ffocws ar ymgysylltu'n gynnar, hunanadrodd, a gweithgarwch dilynol wedi'i dargedu lle y bo angen. Y nod yw osgoi dyblygu a chanolbwyntio ar yr hyn sydd o'r pwys mwyaf i ddysgwyr a'r cyhoedd.

Mae rhagor o fanylion am sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol wedi'u cynnwys yn y dogfennau ymgynghori.

## Beth fydd gweithgarwch monitro Medr yn ei ddisodli ar gyfer darparwyr addysg bellach?

Bydd gweithgarwch monitro Medr yn disodli trefniadau presennol a reolir ar hyn o bryd trwy delerau ac amodau cyllid, prosesau sicrhau ansawdd, a ffurflenni y cytunwyd arnynt rhwng darparwyr, Llywodraeth Cymru, a chyrff eraill. Bydd y prosesau presennol hyn yn cael eu dwyn ynghyd mewn un dull o fonitro, a fydd yn cwmpasu gofynion cyllid a disgwyliadau ehangach ar draws y sector.

## Beth fydd gweithgarwch monitro Medr yn ei ddisodli ar gyfer rhannau eraill o'r sector trydyddol?

Ar gyfer darparwyr sy'n darparu **dysgu oedolion yn y gymuned** neu **brentisiaethau**, bydd gweithgarwch monitro Medr yn disodli trefniadau cyfredol a reolir trwy gymysgedd o amodau cyllid, adroddiadau data, a phrosesau sicrhau ansawdd y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru neu gyrff eraill.

## Sut y bydd Medr yn monitro cydymffurfiaeth darparwr sy'n darparu sawl math o ddarpariaeth?

Gall darparwyr Addysg Bellach (neu eraill yn y sector trydyddol) ddarparu sawl math o ddarpariaeth gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau, a dysgu oedolion a'r gymuned. Er y bydd angen i ni gael sicrwydd ynglŷn â phob math o ddarpariaeth a ddarperir gan ddarparwyr, byddwn yn gwneud pob ymdrech i osgoi dyblygu prosesau a baich gweinyddol diangen, gan fabwysiadu dull cydgysylltiedig trydyddol i'n prosesau monitro lle bo'n briodol. Dylid nodi nad ydym yn disgwyl y bydd angen i ddarparwyr anfon Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol o dan y system reoleiddio newydd tan 2027, a byddwn yn gweithio gyda darparwyr i ddatblygu manylion y ffurflenni hyn, a sicrhau bod y prosesau yn ymarferol i bawb sy'n cymryd rhan.

## A fydd baich ychwanegol? Beth sy'n newydd?

Mae dull Medr wedi'i fwriadu i adeiladu ar drefniadau presennol, nid arwain at ddyblygu diangen. Ond mae rhai elfennau'n newydd, a gwyddom fod newid yn gallu dwyn gwaith ychwanegol yn ei sgîl - yn enwedig ar y dechrau. Er enghraifft, mae'r fframwaith newydd yn cyflwyno Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, a fydd yn nodi disgwyliadau eglur ar gyfer sut y dylai dysgwyr gael eu cynnwys wrth siapio eu profiad. Ceir gofynion newydd hefyd o ran lles staff a dysgwyr[1], a mwy o gysondeb o ran sut y caiff darparwyr ar draws y sector eu monitro a'u dwyn i gyfrif.

---

[1] Mae Medr yn dehongli "lles" yn unol â'r memorandwm esboniadol ar gyfer Deddf 2022. Eglurir hyn yn Fframwaith Rheoleiddio Medr.

Efallai y bydd angen i rai darparwyr addasu sut y maent yn adrodd am rai agweddau penodol ar eu gwaith neu'n eu dangos. Dyna pam ein bod ni'n ymrwymedig i fod yn eglur, yn gymesur, ac i gyd-fynd â'r hyn sydd eisoes yn gweithio'n dda yn y sector. Rydym yn ymgynghori yn awr fel bod darparwyr yn gallu siapio sut y cyflwynir y newidiadau hyn, a byddwn yn parhau i ymgorffori ein gwerthoedd gan wrando ar adborth wrth i'r fframwaith gael ei roi ar waith i sicrhau eu bod yn gweithio'n ymarferol.

## Beth mae hunanadrodd yn ei olygu, a beth fydd angen i ddarparwyr adrodd amdano?

Mae hunanadrodd yn golygu bod disgwyl i ddarparwyr ddweud wrth Medr pan fo rhywbeth arwyddocaol yn digwydd a allai effeithio ar sut y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau. Mae Medr wedi coladu gofynion ar gyfer hunanadrodd ar gyfer hyn o nifer o ofynion presennol yn y sector trydyddol mewn un lle i sicrhau cysondeb.

Gallai hyn gynnwys pethau fel risgiau ariannol difrifol, newidiadau mawr i arweinyddiaeth neu lywodraethu, cau cyrsiau, neu bryderon ynghylch ansawdd neu ddiogelwch dysgwyr. Yn hytrach na disgwyl i broblem gael ei chodi trwy ddata neu arolygu, disgwylir i ddarparwyr gysylltu â ni ac egluro'r hyn sy'n digwydd. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar ymddiriedaeth ac ymgysylltu'n gynnar. Mae'n galluogi Medr i weithio gyda darparwyr i ddeall y mater, penderfynu a oes angen unrhyw gamau gweithredu, a rhoi cymorth i ddatrys y mater lle y bo'n bosibl.

Y nod yw atal problemau rhag dwysau - nid cosbi darparwyr am fod yn agored ac yn rhagweithiol.

## A fydd Medr yn cyhoeddi gwybodaeth ar lefel darparwyr?

Bydd - bydd Medr yn cyhoeddi peth gwybodaeth am ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru neu sy'n cael cyllid cyhoeddus. Mae hyn yn helpu dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r cyhoedd i ddeall pa ddarparwyr sy'n ateb y gofynion ac sy'n rhan o'r sector addysg drydyddol rheoleiddiedig.

Bydd y gofrestr ei hun yn gyhoeddus, felly gall unrhyw un weld pa ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru a pha fath o gofrestriad sydd ganddynt. Gallwn gyhoeddi gwybodaeth arall hefyd - megis pan fo darparwr yn cael adolygiad neu pan ganfuwyd bod darparwr wedi torri gofynion - lle mae er budd y cyhoedd ein bod yn gwneud hynny. Ein nod yw cefnogi tryloywder gan fod yn deg ac yn gymesur. Byddwn yn glir gyda darparwyr ynglŷn â pha wybodaeth fydd yn cael ei chyhoeddi, a phryd, fel nad oes unrhyw syrpreisys.

Fel rhan o ryngweithio gyda ni, mae darparwyr weithiau'n cyflwyno gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif ac mae ein dull 'dim syrpreisys' yn annog darparwyr yn frwd i'n hysbysu ni ynghylch materion neu ddigwyddiadau ymlaen llaw cyn i'r rhain ddod yn gyhoeddus.

Rydym ni o'r farn bod y gydymddiriedaeth hon yn elfen hollbwysig o fonitro a deall y sector yn effeithiol a byddwn yn parhau i roi ystyriaeth eglur i hyn wrth ystyried pa wybodaeth ar lefel darparwyr sy'n cael ei chyhoeddi.

## Beth mae hyn yn ei olygu i ddarparwyr prentisiaethau a'u dysgwyr?

Mae prentisiaethau'n rhan allweddol o'r system addysg drydyddol yng Nghymru, ac mae dull Medr wedi'i fwriadu i roi cymorth i gael cysondeb o ran ansawdd, diogelu dysgwyr, a chydweithio ar draws yr holl ddarpariaeth prentisiaethau.

Yng Nghymru, mae prentisiaethau'n cael eu comisiynu trwy fodel contractio cenedlaethol ar hyn o bryd. Dyfernir contractau i ddarparwyr am gyfnod penodol sy'n nodi'r gofynion ar gyfer sut y dylai prentisiaethau gael eu darparu a sut y defnyddir cyllid cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys taliadau sy'n gysylltiedig â chofrestriadau, dilyniant a chyflawniad dysgwyr. Mae Medr wedi ysgwyddo cyfrifoldeb am reoli a chyllido darpariaeth prentisiaethau, gan gynnwys gradd-brentisiaethau a phrentisiaethau eraill. Dros amser, bydd y ffordd y comisiynir darparwyr prentisiaethau'n esblygu i adlewyrchu amodau cyllid Medr. Pan fo darparwyr yn cael eu hail-gomisiynu nesaf i ddarparu prentisiaethau, sef o 1 Awst 2027 yn ôl yr hyn a ragwelwn, bydd disgwyl iddynt fodloni amodau cyllid Medr, yn union fel darparwyr eraill a gyllidir.

## Sut mae Medr yn trin gwybodaeth gyfrinachol, bersonol, neu sensitif a gyflwynir gan ddarparwyr?

Mae Medr yn prosesu'r holl wybodaeth yn unol â'r Rheoleiddiad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU a deddfwriaeth diogelu data berthnasol. Dim ond lle mae sail gyfreithlon yn berthnasol y bydd data personol - gan gynnwys unrhyw ddata categori arbennig - yn cael eu casglu, eu defnyddio, eu storio neu eu rhannu.

Bydd darparwyr ac unigolion yn cael gwybod sut y bydd eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio, a dim ond lle mae'r gyfraith yn caniatáu y bydd Medr yn rhannu gwybodaeth. Lle cyflwynir deunydd sensitif neu gyfrinachol, mae Medr yn defnyddio mesurau diogelwch priodol, gan gynnwys cyfyngu mynediad i staff awdurdodedig a sicrhau bod data yn cael eu prosesu'n gymesur ac at ddibenion rheoleiddio cyfreithlon.

Nid yw cyflwyno gwybodaeth o dan ddull "dim syrpreisys" Medr yn golygu y bydd data personol neu sensitif yn cael eu datgelu'n gyhoeddus na'u rhannu â thrydydd partïon heb sail gyfreithlon a thryloywder priodol.

## Sut fydd y fframwaith rheoleiddio yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru?

Byddwn yn parhau i adolygu'r fframwaith rheoleiddio i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n dda ac yn parhau i fod yn gymesur. Rydym yn cynnig cynnal adolygiad llawn yn y dyfodol, fel bod gan y system amser i setlo cyn gwneud unrhyw newidiadau mawr. Drwy gydol y broses o'i weithredu, byddwn yn cadw cofnod o adborth a phroblemau sy'n codi, a fydd yn ein helpu i ddeall beth sy'n gweithio a beth allai fod angen ei wella. Ar ôl y cylch llawn cyntaf, byddwn yn casglu adborth strwythuredig gan ddarparwyr i gael darlun clir o sut mae'r system yn gweithredu'n ymarferol. Os byddwn yn sylwi'n gynnar nad yw rhywbeth yn gweithio neu ei fod yn achosi problemau, efallai y byddwn yn gwneud addasiadau yn gynt. At ei gilydd, gall darparwyr ddisgwyl dull sefydlog, hirdymor, gyda rhybudd cyn i unrhyw beth newid.

Byddwn hefyd yn adolygu lefel y baich rheoleiddio yn weithredol, gan asesu a ellir symleiddio neu wella effeithlonrwydd unrhyw ofynion wrth i'r system ymsefydlu. Ein nod yw sicrhau bod y fframwaith yn parhau i fod yn gymesur ac yn ymarferol, gan leihau gofynion diangen ar ddarparwyr wrth gynnal mesurau diogelwch i ddysgwyr.

Gallwn ddiwygio dogfennau rheoleiddio cyhoeddedig pan fo angen. Pan fo newid yn un sylweddol – hynny yw, un sy'n newid cynnwys, effaith neu weithrediad gofynion rheoleiddio – byddwn yn cynnal ymgynghoriad yn unol â'n rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, cyn penderfynu a ddylid symud ymlaen gydag unrhyw ddiwygiadau a sut y dylid gwneud hynny. Pan fo newid yn un ansylweddol – er enghraifft, cywiro camgymeriadau bach, mireinio iaith, gwella eglurder neu ddyluniad, neu wella hygyrchedd – gallwn wneud y newid heb ymgynghoriad. Bydd pob newid, boed yn sylweddol neu'n ansylweddol, yn cael ei gofnodi a'i reoli drwy ein trefniadau rheoli fersiynau, gan gynnwys cyhoeddi cylchlythyrau ychwanegol, fel bod diweddariadau'n cael eu dogfennu'n glir ac yn hawdd eu holrhain ar gyfer darparwyr a dysgwyr.

## Beth yw disgwyliadau Medr ar gyfer darpariaeth freiniol, darpariaeth wedi'i his-gontractio, darpariaeth sydd wedi'i dilysu ac addysg drawswladol?

O dan y Ddeddf, mae nifer o amodau rheoleiddio Medr yn berthnasol nid yn unig i ddarpariaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan ddarparwr, ond hefyd i ddarpariaeth a ddarperir ar ran y darparwr hwnnw. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth freiniol neu ddarpariaeth wedi'i his-gontractio, a gall gynnwys rhai mathau o addysg drawswladol. Mae'r trefniadau hyn yn dod o fewn cwmpas amodau megis Ansawdd a Gwelliant Parhaus, a Chyfle Cyfartal. Felly rhaid i ddarparwyr sicrhau bod ganddynt drefniadau effeithiol ar waith i oruchwylio'r ddarpariaeth hon a rheoli risgiau lle bynnag y bo'n digwydd.

Yn ogystal â'r cyfeiriadau penodol hyn yn y Ddeddf, mae'n ymhlyg ar draws llawer o amodau rheoleiddio eraill Medr fod cyflawni drwy bartneriaeth yn dod o fewn cyfrifoldebau cyffredinol y darparwr. Mae amodau fel Llywodraethu a Rheoli a Chynaliadwyedd Ariannol yn berthnasol i'r darparwr cyfan, ac felly'n ymestyn i unrhyw drefniadau sy'n rhan o'i weithrediadau ehangach. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed lle nad yw amod yn cyfeirio'n benodol at ddarpariaeth a gyflwynir ar ran darparwr, fod yn rhaid i'r darparwr sicrhau o hyd fod ei drefniadau goruchwylio, gwneud penderfyniadau a rheoli risg yn cwmpasu pob model cyflawni, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys partneriaid.

Mae darpariaeth wedi'i dilysu'n wahanol. O dan y Ddeddf nid yw'n cael ei hystyried yn ddarpariaeth a gyflwynir ar ran darparwr. Caiff dilysu ei lywodraethu drwy Amod Dilysu ar wahân, sy'n berthnasol i drefniadau lle mae darparwr yn dyfarnu cymhwyster i fyfyriwr mewn sefydliad arall neu'n awdurdodi'r sefydliad hwnnw i ddyfarnu cymhwyster ar ei ran, fel y'i diffinnir yn y Ddeddf. Mae'r amod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr dilysu gymryd cyfrifoldeb am safonau academaidd, sicrhau ansawdd yr addysg a ddarperir drwy'r trefniant dilysu, ac asesu a monitro addasrwydd a pherfformiad y sefydliad darparu. Er bod dilysu yn gweithredu'n wahanol i ddarpariaeth freiniol neu ddarpariaeth wedi'i his-gontractio, y darparwr dilysu sy'n parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod dysgwyr sy'n astudio trwy ddarpariaeth wedi'i dilysu yn derbyn amddiffyniadau priodol a bod unrhyw gymwysterau a ddyfernir yn enw'r darparwr yn bodloni'r safonau gofynnol.

## Sut mae Medr yn gwneud penderfyniadau ynghylch uwchgyfeirio ac ymyrryd?

Mae Medr yn defnyddio dull cymesur, sy'n seiliedig ar risg, o fonitro, a bydd y rhan fwyaf o'r ymgysylltiad â darparwyr yn rheolaidd, yn gefnogol ac yn canolbwyntio ar ddeall cyd-destun yn hytrach na thynnu sylw at bryder rheoleiddiol. Dim ond lle mae tystiolaeth yn awgrymu risg i gydymffurfio ag amodau rheoleiddio y byddwn yn uwchgyfeirio, neu lle mae gan faterion y potensial i effeithio ar ddysgwyr, arian cyhoeddus neu uniondeb addysg drydyddol yng Nghymru. Gwneir penderfyniadau ym mhob cam drwy strwythurau llywodraethu mewnol Medr, yn hytrach na chan un unigolyn, ac maent yn adlewyrchu difrifoldeb a pharhad y mater, ymateb y darparwr, ac unrhyw ddyletswyddau statudol perthnasol.

Nid yw Medr yn gweithredu trothwyon rhifiadol sefydlog, gan fod pob achos yn wahanol ac yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol, y cyd-destun a natur y risg dan sylw. Yn hytrach, mae proses uwchgyfeirio yn cael ei llywio gan y ffactorau a nodir yn y fframwaith rheoleiddio, gan gynnwys graddfa ac effaith y mater, a yw pryderon yn digwydd dro ar ôl tro, a'r graddau y mae'r darparwr wedi cymryd camau rhesymol i reoli neu ddatrys y mater. Mae'r dangosyddion hyn yn gweithredu fel ysgogiadau ar gyfer craffu pellach yn hytrach na sbardunau awtomatig.

Mae hefyd yn bwysig gwahaniaethu rhwng ymyriadau ffurfiol a'r categori ehangach o ymgysylltu o ddydd i ddydd. Mae llawer o ryngweithiadau rhwng Medr a darparwyr yn arferol ac yn rhan o fonitro arferol, ac nid ydynt yn dynodi unrhyw bryder rheoleiddiol. Mae ymyriadau rheoleiddio ffurfiol, megis rhoi cyngor a chymorth, rhoi cyfarwyddiadau neu osod amodau cofrestru parhaus penodol, wedi'u diffinio'n glir mewn deddfwriaeth a'u defnyddio dim ond lle bo angen mewn ymateb i risg a nodwyd.

Lle bo angen uwchgyfeirio ffurfiol, bydd Medr yn nodi'n glir math a phwrpas yr ymyrraeth, y rhesymau dros gymryd camau gweithredu, beth sy'n ofynnol mewn ymateb, a sut y bydd cynnydd yn cael ei adolygu. Bydd darparwyr yn cael gwybod am y cam uwchgyfeirio y maent yn mynd iddo a sut mae hyn yn berthnasol i'r Datganiad o Bwerau Ymyrryd. Mae hyn yn sicrhau bod darparwyr yn deall sail y penderfyniad, difrifoldeb y mater, a'r camau nesaf yn y broses. Bydd Medr yn parhau i gyfathrebu'n agored drwy gydol yr ymyrraeth, gan gynnwys unrhyw symudiad rhwng camau, fel bod gan ddarparwyr ddealltwriaeth glir a thryloyw o'u sefyllfa a'r camau sydd eu hangen i ddatrys y mater.

## Beth sy'n digwydd os nad yw darparwyr yn cydymffurfio â gofynion a osodwyd gan reoleiddwyr eraill neu Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol?

Mae Medr yn disgwyl i ddarparwyr gydymffurfio â gofynion a phrosesau rheoleiddwyr ac ombwdsmyn eraill, er enghraifft Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol neu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r cyrff hyn yn gweithredu o dan fframweithiau statudol ar wahân, ac mae eu prosesau'n parhau i fod ar wahân. Fodd bynnag, gall gwybodaeth gan y cyrff hynny ffurfio rhan o'r dystiolaeth ehangach y mae Medr yn ei hystyried wrth ddeall risg ac asesu cydymffurfedd â'i amodau ei hun.

Ni fydd diffyg cydymffurfio â rheoleiddiwr arall yn sbarduno ymyrraeth gan Medr yn awtomatig. Yn hytrach, mae Medr yn ystyried a yw'r mater sylfaenol yn codi pryderon sy'n berthnasol i'w amodau ei hun. Mae'r Datganiad o Bwerau Ymyrryd yn ei gwneud yn glir bod Medr yn defnyddio ystod o wybodaeth wrth fonitro darparwyr, gan gynnwys adroddiadau asesu allanol, data cwynion ac unrhyw dystiolaeth a allai ddangos diffyg cydymffurfio neu risg posibl. Yna mae Medr yn ystyried y dystiolaeth hon fesul achos, gan ystyried difrifoldeb, dyfalbarhad, cyd-destun a chamau gweithredu'r darparwr cyn penderfynu a oes angen ymgysylltu ymhellach neu uwchgyfeirio'r mater.

Golyga hyn bod Medr yn gallu ystyried, lle mae darparwr yn methu dro ar ôl tro â gweithredu argymhellion, neu lle nad yw'n cydymffurfio â gofynion rheoleiddiwr arall, a yw hyn yn codi pryderon ehangach ynghylch llywodraethu'r darparwr, ei ymagwedd at risg, neu ei gyflawniad o amodau perthnasol. Byddai unrhyw benderfyniadau sy'n deillio o hyn yn dilyn prosesau arferol a threfniadau llywodraethu mewnol Medr a byddent bob amser yn gymesur â natur y pryder.

# A allwch chi roi trosolwg o sut a phryd y bydd yr amodau'n berthnasol?

| | | | | | | | | Cofrestru | | Cyflwyniadau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 01-Aug-26 | | | | | O Ebrill-26 | Erbyn 1-Awst-26 | Nov-26 | Dec-27 | Dec-28 | Dec-29 | Dec-30 |
| | | | Mae'r amod yn dod i rym ar gyfer: | | | | | Darparwyr AU cofrestredig yn unig | | | **Ffurflenni sicrwydd blynyddol 2026/27** | **Ffurflenni sicrwydd blynyddol 2027/28** | **Ffurflenni sicrwydd blynyddol 2028/29** | **Ffurflenni sicrwydd blynyddol 2029/30** |
| **Amod** | **Math o amod** | **Cychwynnol/ parhaus** | Darparwyr AU cofrestredig | AB | Prentisiaethau | Dysgu Oedolion a'r Gymuned | Chweched dosbarth | | | | | | | |
| **Cynaliadwyedd Ariannol** | Cofrestru a Chyllido | Cychwynnol a Pharhaus | ✓ | ✓ | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | ✓ | | Ceisiadau i gofrestru darparwyr AU ar agor | Bodlonwyd **yr holl** amodau cychwynnol<br><br>Datganiad sicrwydd wedi'i ddarparu yn cadarnhau hunanasesiad a gynhaliwyd ar gyfer Cyflwr Lles Staff a Dysgwyr<br><br>Hunanwerthusiad o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a rheoli<br><br>Terfynau ffioedd wedi'u cymeradwyo ar gyfer 2027/28 | | Datganiadau ariannol wedi'u harchwilio (AU Tachwedd; AB Rhagfyr)<br>Rhagolygon ariannol (Gorffennaf)<br>Ffurflenni recriwtio (AU Tachwedd) | Datganiadau ariannol wedi'u harchwilio (AU 30 Tach; AB 31 Rhag)<br>Rhagolygon ariannol (31 Gorffennaf)<br>Ffurflenni recriwtio (AU Tachwedd) | Datganiadau ariannol wedi'u harchwilio (AU 30 Tach; AB 31 Rhag)<br>Rhagolygon ariannol (31 Gorffennaf)<br>Ffurflenni recriwtio (AU Tachwedd) | Datganiadau ariannol wedi'u harchwilio (AU 30 Tach; AB 31 Rhag)<br>Rhagolygon ariannol (31 Gorffennaf)<br>Ffurflenni recriwtio (AU Tachwedd) |
| **Llywodraethu a Rheoli** | Cofrestru a Chyllido | Cychwynnol a Pharhaus | ✓ | ✓ | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | ✓ | | | | | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol<br>bod y darparwr wedi cwblhau hunanasesiad llywodraethu a rheoli | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol<br>bod y darparwr wedi cwblhau hunanasesiad llywodraethu a rheoli | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol<br>bod y darparwr wedi cwblhau hunanasesiad llywodraethu a rheoli | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol<br>bod y darparwr wedi cwblhau hunanasesiad llywodraethu a rheoli |
| **Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr** | Cofrestru yn unig | Cychwynnol a Pharhaus | ✓ | | | | | | | | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol |
| **Proses Digwyddiadau Adroddadwy** | Y naill na'r llall - Proses | Y naill na'r llall - Proses | ✓ | ✓ | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | ✓ | | | | | - | - | - | - |
| **Statws Elusennol** | Cofrestru yn unig (craidd) | Cychwynnol a Pharhaus | ✓ | | | | | | | | - | - | - | - |
| **Hysbysiad o Newidiadau** | Cofrestru yn unig | Parhaus | ✓ | | | | | | | | - | - | - | - |
| **Amod Terfynau Ffioedd** | Cofrestru yn unig (craidd) | Parhaus | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | | | | | | | | Datganiad terfyn ffioedd wedi'i gyflwyno cyn dechrau'r flwyddyn academaidd | Datganiad terfyn ffioedd wedi'i gyflwyno cyn dechrau'r flwyddyn academaidd | Datganiad terfyn ffioedd wedi'i gyflwyno cyn dechrau'r flwyddyn academaidd | Datganiad terfyn ffioedd wedi'i gyflwyno cyn dechrau'r flwyddyn academaidd |
| **Ystyriaeth o Gyngor ac Arweiniad** | Cofrestru a Chyllido | Parhaus | ✓ | ✓ | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | ✓ | | | | | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol |
| **Trefniadau Dilysu** | Cofrestru yn unig | Cychwynnol a Pharhaus | ✓ | | | | | | | | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol |
| **Gwybodaeth, Cynhorthwy a Mynediad** | Cofrestru a Chyllido | Parhaus | ✓ | ✓ | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | ✓ | | | | | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol |
| **Statws fel Darparwr Addysg Drydyddol** | Cofrestru yn unig | Parhaus | ✓ | | | | | | | | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol |
| **Gweithdrefnau cwynion** | Cofrestru a Chyllido | Parhaus | ✓ | ✓ | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | ✓ | | | | | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol<br>Dolen i'r weithdrefn gwyno yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol<br>Dolen i'r weithdrefn gwyno yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol<br>Dolen i'r weithdrefn gwyno yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol<br>Dolen i'r weithdrefn gwyno yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol |
| **Cyfle cyfartal** | Cofrestru a Chyllido | Parhaus | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | ✓ | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | ✓ | | | | | Deilliannau mesuradwy Cyfle Cyfartal (Atodiad A) cyflwyniad cyntaf ar gyfer pob darparwr | Tystiolaeth o gynnydd yn erbyn canlyniadau mesuradwy yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Tystiolaeth o gynnydd yn erbyn canlyniadau mesuradwy yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Tystiolaeth o gynnydd yn erbyn canlyniadau mesuradwy yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol |
| **Cod ymgysylltu â dysgwyr** | Cofrestru a Chyllido | Parhaus | ✓ | ✓ | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | ✓ | ✓ | | | | Ymrwymiad ymgysylltu â dysgwyr wedi'i gyhoeddi | Adolygiad blynyddol o ymrwymiad ymgysylltu â dysgwyr (2027/28)<br>Tystiolaeth o effaith | Adolygiad blynyddol o ymrwymiad ymgysylltu â dysgwyr (2028/29)<br>Tystiolaeth o effaith | Adolygiad blynyddol o ymrwymiad ymgysylltu â dysgwyr (2029/30)<br>Tystiolaeth o effaith |
| **Cynlluniau amddiffyn dysgwyr** | Cofrestru a Chyllido | Parhaus | ✓ | ✓ | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | ✓ | | | | Cynllun diogelu dysgwyr yn cael ei gyflwyno dim ond pan roddir rhybudd i wneud hynny gan Medr | | | | |
| **Ansawdd a gwelliant parhaus** | Cofrestru a Chyllido | Cychwynnol a Pharhaus | ✓ | ✓ | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | ✓ | ✓ | | | | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol |
| **Lles staff a dysgwyr** | Cofrestru a Chyllido | Cychwynnol a Pharhaus | ✓ | ✓ | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | ✓ | | | | Datganiad hunanwerthuso lles a chynllun gweithredu lles 2026/28 ym mis Tachwedd 2026 | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol<br>Erbyn 1 Mehefin 2028: cynllun gweithredu lles ar gyfer 2028/30 | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol |
| **Y Gymraeg** | Cofrestru a Chyllido | Parhaus | ✓ | ✓ | Yn berthnasol o 1 Awst 2027 | ✓ | | | | | | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol<br>Dolen i Strategaeth y Gymraeg a gyhoeddwyd | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol<br>Dolen i Strategaeth y Gymraeg a gyhoeddwyd | Hunan-ddatganiad yn y ffurflenni sicrwydd blynyddol<br>Dolen i Strategaeth y Gymraeg a gyhoeddwyd |

Mae’r ddogfen hon yn darparu canllawiau cyffredinol i gefnogi dealltwriaeth o Fframwaith Rheoleiddio Medr. Nid yw’n disodli nac yn diystyru’r gofynion statudol a nodir yn y Ddeddf, y rheoliadau cysylltiedig, na’r amodau rheoleiddio a gyhoeddwyd gan Medr. Os bydd unrhyw anghysondeb, y darpariaethau statudol a’r amodau rheoleiddio a gyhoeddwyd yn ffurfiol sy’n cael blaenoriaeth.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**